

## Cofion

Parhawn i gofio am y cleifion yn ein gweddïau. Cofiwn yn arbennig am Gwyn H. Davies (Hiraethog), a hefyd Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) sydd wedi gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty – y ddau bellach yn cael gofal yn yr Inffirmari. Cofiwn hefyd am Elwyn Roberts (Llansannan) gafodd ddod adre o'r ysbyty y penwythnos diwethaf. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn hefyd i eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddïau hyn, gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu gwarchod a'u cynnal yn eu hangen.

## Detholiadau

Os hoffech gael copi o


Raglen Cymanfaoedd Canu 2015-2016

(Hen Nodiant a/neu Sol-ffa),

rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul

**HEDDIW (MEDI 20<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda. Pris: £1.40

(Arolygwyr: Wnewch chi roi eich archeb i Mair erbyn nos Fawrth, Medi 22<sup>ain</sup>, os gwelwch yn dda?)



## Cymorth i'r Ffoaduriaid

Os dymunwch gyfrannu NWYDDAU i'r ffoaduriaid, bydd y llwyth nesaf yn mynd i Calais yn fuan ym mis Hydref (gweler y daflen am fanylion o'r hyn sydd ei angen). Os oes ganddoch nwyddau i'w cyfrannu, byddem yn ddiolchgar o'u derbyn yn y Granar yn Llansannan **erbyn Hydref 6ed**, os gwelwch yn dda. Os oes angen i ni eu casglu, plis cysylltwch â Mair i wneud trefniadau.

Hwyrach y byddai'n well gennych gyfrannu'n ARIANNOL. Holwch un o'r blaenoriaid i gael amlen felen (Apêl Argyfwng – Tearfund). Byddem yn ddiolchgar petaech yn dychwelyd yr amlenni i Mair **erbyn dydd Sul, Hydref 25ain** gan wneud unrhyw siec yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', os gwelwch yn dda. Os yw'n bosibl i chi hefyd lenwi ac arwyddo'r ffurflen rhodd cymorth sydd ar yr amlen, byddai hynny hefyd yn cynyddu gwerth eich rhodd ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

## I ddod

- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL SARON** nos Iau, Hydref 1af gyda'r Parch. James Clarke yn pregethu. Croeso cynnes i bawb. Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yr ieuenctid a'r plant ar Hydref 4ydd am 10.00.
- **GWASANAETHAU DIOLCHGARWCH HENLLAN**, dydd Llun, Hydref 12fed. Bydd plant Ysgol Henllan yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y prynhawn am 2.00 a Mrs Mair Beech Williams yn rhoi sgwrs i'r plant, ac yna yng nghyfarfod yr hwyr am 7.00, ceir pregeth gan y Parch. Dewi Tudur. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA DDIOLCHGARWCH UNDEBOL LLANSANNAN** nos Fercher, Hydref 14eg yn Festri Capel Coffa Henry Rees am 7.30 gyda'r Parch. Eric Jones yn pregethu. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith Coleg y Bala. Croeso cynnes i bawb.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 20<sup>fed</sup> Medi 2015

## Darlleniad y Dydd

Hebreaid 2:5-9

(BCND tud.240 / BCN: tud.220)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da iawn i chi gyd a chroeso i oedfaon y dydd heddiw. Fe gymerai'r cyfle yma i ddiolch i chi i gyd am y croeso y mae Sarah a finnau wedi ei gael ym Mro Aled. Rydyn ni'n dau yn edrych ymlaen yn fawr at ddod i'ch nabod yn well yn ogystal â gweld beth sydd gan Dduw mewn golwg am y flwyddyn nesaf yn y Fro hardd hon. Gofynnwn am eich gweddïau a'ch cydweithrediad yn y gwaith yma.

Bore Sadwrn y 12fed, fe ryddhawyd canlyniad yr etholiad ar gyfer arweinyddiaeth y blaid Lafur. Daeth fel sioc aruthrol mai Jeremy Corbyn ymddangosodd yn fuddugol gyda 60% o'r bleidlais, yn enwedig gan mai fel protest y safodd fel ymgeisydd – aelod o'r blaid oedd wedi cael digon ar y cyfeiriad yr oedd hi'n mynd.

Yn ystod yr ymgyrch, ac ers ei fuddugoliaeth, mae Jeremy Corbyn wedi cael ei glodfori gan rai fel iachawdwr y blaid Lafur. Mae'n siarad o'i galon ac yn ymddangos yn barod i roi ei hun yn llwyr dros ei blaid a thros ei egwyddorion. Mae ei wleidyddiaeth sosialaidd yn cael ei ddefnyddio i'w ddilorni a'i ddiystyru fel ffigur i'w gymryd o ddifrif. Yn anffodus, rhywbryd yn ystod ac ar ôl ei amser fel arweinydd, mae Corbyn yn mynd i adael i lawr bob un o'r 250,000 o bobl bleidleisiodd drosto fo. Mae gosod ein holl obeithion ynddo ac arno fo yn golygu rhywbeth ansicr – dywed llawer na fydd y blaid Lafur mewn grym am ryw 10 mlynedd o'i herwydd. Trwy roi ein ffydd yn llwyr ynddo fo, neu unrhyw wleidydd arall, rydym yn ymddiried nad ydy o am gyfaddawdu trwy gefnu ar rai o'i egwyddorion er mwyn ailadeiladu ei blaid a'i gwerthoedd.

Yn Iesu, mae gennym ni berson wnaiff ddim troi cefn arnom ni – person i ddibynnu arno'n llwyr. Mae rhoi ein ffydd yn Iesu Grist yn golygu dyfodol sicr. Mae Iesu wedi addo bywyd tragwyddol i'r rhai sy'n credu ynddo fo: "Credwch chi fi, mae bywyd tragwyddol gan y rhai sy'n gwrandao ar beth dw i'n ei ddweud, ac yn credu yn Nuw wnaeth fy anfon i. Dyn nhw ddim yn cael eu condemnio; maen nhw wedi croesi o fod yn farw i fod yn fyw." (Ioan 5:24)

Yn Iesu Grist, mae gennym ni iachawdwr sydd wedi dangos ei ffyddlondeb i ni trwy roi ei hun yn aberth drosom ar y groes. Gwnaeth hyn heb ddisgwyl pleidlais na chefnogaeth. Yn wir, gwnaeth hyn yn gwybod y byddwn yn ei wrthod. Pa arwydd mwy o ffyddlondeb a chariad sydd na hynny?

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled

*Gwion*

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Rhufeiniaid 2:1-4 (BCND tud.166 / BCN: tud.151)

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.
- Llun – 21<sup>ain</sup>
- **Christian Viewpoint** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel am 7.30. “Yn nwylo Duw yn Uganda” – Paul Robinson a Gavin Craigen yn rhannu eu profiadau o weinidogaethu yn Uganda. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i bawb.
- Mercher – 23<sup>ain</sup>  
lau – 24<sup>ain</sup>
- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
  - **Cwrdd Chwarter** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug am 7.00 gydag anerchiad gan y Parch. Ddr R. Alun Evans, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.
  - **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 25<sup>ain</sup>
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Nos Wener a dydd Sadwrn – 25<sup>ain</sup>-26<sup>ain</sup>
- **Aduniad Llanw** yn y Bala ar gyfer pobl o bob oed, yn deuluoedd ac unigolion, ac i ffrindiau hen a newydd. Y siaradwr fydd y Parch. Alun Tudur, Caerdydd. Os nad ydych wedi rhoi eich enw, cysylltwch â Choleg y Bala ddechrau'r wythnos hon, os gwelwch yn dda (01678 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk)).
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Aneurin yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup> Bydd Gwion a Sarah yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup> Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup> Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11:10.
- Mercher – 23<sup>ain</sup> Cynhelir Pwyllgor i drefnu yr Ysgol Sul yn y Granar am 7.30. Croeso i bawb, yn arbennig i'r rhieni.
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd pryd y bydd Mark a Bethan Woods yn cyflwyno Aron Dafydd i gael ei fedyddio. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11:10.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup> Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup> Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

### Henllan a Groes

- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul nesaf – 20<sup>fed</sup> Bydd Gwion a Sarah yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 27<sup>ain</sup> Bydd Sioned Ll. Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghewn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd.

### Manylion Cyswllt

- Aneurin – 📧 [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
Gwion – 📧 [gwion@eglwysibroaled.com](mailto:gwion@eglwysibroaled.com) 📞 07849 591163  
Sarah – 📧 [sarah@eglwysibroaled.com](mailto:sarah@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07900 308461  
Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.